

# Tystysgrif CACHE lefel 2
# a Diploma CACHE lefel 3
# Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
# (Cyfrwng Cymraeg)

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Menter ar y cyd rhwng CACHE
a Mudiad Ysgolion Meithrin

WMC/D-05/1

cache
nurturing achievement

# CACHE Level 2 Certificate
# & Level 3 Diploma
# Early Years Care and Education
# (Welsh-Medium)



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

A unique joint initiative by
CACHE and Mudiad Ysgolion Meithrin

WMC/D-05/1

cache
nurturing achievement

As an early years worker you will have a fundamental influence on the care and education of children in your chosen setting. By providing them with the right support, children can confidently begin to develop a sense of themselves and their achievements. Working in a Welsh or bi-lingual setting will also bring added challenges. You may, for example, need to offer guidance to non-Welsh speaking parents so they can assist their children's linguistic and cultural development.

The CACHE Level 2 Certificate and the CACHE Level 3 Diploma in Early Years Care and Education (Welsh-Medium) have been developed jointly by Mudiad Ysgolion Meithrin and the Council for Awards in Children's Care and Education (CACHE). They provide nationally recognised qualifications in the medium of Welsh that are accredited by, Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm Ac Asesu Cymru, (ACCAC) and the Qualifications and Curriculum Authority (QCA).

Taught in Welsh or bi-lingually they will give you the essential knowledge and skills to plan, manage or help manage and deliver a varied programme of activities, that enhance the learning potential of children in your care.

## What is involved and which qualification should I do?

For both qualifications you will be required to follow the course on a part time basis. You will also be required to complete assessments for each of the Units you will study during this time. This does not necessarily mean that you will spend all your time in a classroom. Your study Centre is likely to use a range of teaching methods to ensure that you get the maximum benefit from your studies.

The Diploma is for current leaders/or deputies or those with some experience in early years care and education. The Certificate is for those who work in supervised positions. Although both qualifications are predominantly designed for workers within cylchoedd meithrin and other pre-school settings, they may also be useful for those working in nurseries.

Fel un o weithwyr yn y blynyddoedd cynnar, bydd gennych ddylanwad sylfaenol ar ofal ac addysg plant yn eich lleoliad dewisol.  Drwy roi'r gefnogaeth gywir iddynt, gall plant ddechrau datblygu ymwybyddiaeth o'u hunain a'u cyraeddiadau, yn hyderus.  Bydd gweithio mewn lleoliad Cymraeg neu ddwyieithog hefyd yn cynnig her ychwanegol.  Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gynnig cyfarwyddyd i rieni di-Gymraeg er mwyn eu galluogi i gynorthwyo yn natblygiad ieithyddol a diwylliannol eu plant.

Datblygwyd Tystysgrif Lefel 2 CACHE a Diploma Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar Lefel 3 CACHE (Cyfrwng Cymraeg) ar y cyd gyda Mudiad Ysgolion Meithrin a Chyngor Dyfarniadau mewn Gofal ac Addysg Plant (CACHE). Maent yn cynnig cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n cael eu hachredu gan Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm Ac Asesu Cymru, (ACCAC) ac Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA).

Gan bod y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau hanfodol i chi i gynllunio, i reoli neu helpu i reoli a chynnig rhaglen amrywiol o weithgareddau sy'n hyrwyddo dysgu plant dan eich gofal.

## Beth mae'n ei olygu a pha gymhwyster ddylwn i ymgeisio amdano?

Dilynir y cwrs yn rhan amser ar gyfer y ddau gymhwyster.  Hefyd, bydd yn rhaid cwblhau asesiadau ar gyfer pob un o'r Unedau y byddwch yn eu hastudio yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y byddwch yn treulio eich holl amser yn yr ystafell ddosbarth.  Bydd eich Canolfan astudio'n debygol o ddefnyddio amrediad o ddulliau addysgu i sicrhau eich bod yn cael y budd mwyaf o'ch cwrs.

Mae'r Diploma ar gyfer arweinyddion/dirprwyon neu'r rhai â rhywfaint o brofiad mewn gofal ac addysg blynyddoedd cynnar.  Mae'r Dystysgrif ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn swyddi dan oruchwyliaeth. Lluniwyd y ddau gymhwyster yn bennaf ar gyfer ymarferwyr mewn cylchoedd meithrin a sefydliadau cyn ysgol eraill, gallan nhw hefyd fod o fudd i'r rhai sy'n gweithio mewn meithrinfeydd.

## The CACHE Level 2 Certificate is for those who work in supervised positions and/or are new to early years study. It is made up of 4 Units:

- Unit 1 The Development and Needs of Children 0-4 years 11 months
- Unit 2 Providing Experiences and Activities for Young Children
- Unit 3 Working within Welsh Medium Settings
- Unit 4 The Environment for Young Children

In addition to your time spent studying it is recommended that you spend an equivalent number of hours in a appropriate work setting as the award is linked directly to work practice. If you are not in employment when you wish to start the course, your Centre should arrange suitable placements.

## The CACHE Level 3 Diploma is for leaders and/or assistants or those with some experience in early years. It is also made up of 4 Units:

- Unit 1 Planning and Framework of the Welsh Medium Provision
- Unit 2 Child Development
- Unit 3 The Learning Enviroment
- Unit 4 The role of the Welsh Medium Early Years Setting

As it is preparing you to work at supervisory level you will need to be working with young children in a related setting.

## Mae Tystysgrif Lefel 2 CACHE ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn swyddi dan oruchwyliaeth ac/neu sy'n newydd i astudio maes y blynyddoedd cynnar. Mae'n cynnwys 4 Uned:

- Uned 1 Datblygiad ac Anghenion Plant 0-4 blwydd 11 mis
- Uned 2 Darparu Profiadau a Gweithgareddau ar gyfer Plant Ifanc
- Uned 3 Gweithio o fewn Sefydliadau Cyfrwng Cymraeg
- Uned 4 Yr Amgylchedd ar gyfer Plant Ifanc

Yn ychwanegol at eich amser yn astudio, argymhellir eich bod yn treulio nifer cyfatebol o oriau mewn lleoliad gwaith priodol gan fod y cymhwyster yn uniongyrchol gysylltiedig ag arfer gwaith. Dylai eich Canolfan drefnu lleoliadau addas i chi os nad ydych yn gweithio pan fyddwch yn dechrau'r cwrs.

## Mae Diploma Lefel 3 CACHE ar gyfer arweinyddion a/neu gynorthwy-wyr neu ar gyfer y rhai â rhywfaint o brofiad blynyddoedd cynnar. Mae hwn hefyd yn cynnwys 4 Uned:

- Uned 1 Cynllunio a Fframwaith Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg
- Uned 2 Datblygiad Plentyn
- Uned 3 Yr Amgylchedd Dysgu
- Uned 4 Rôl Sefydliad Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg

Gan fod hwn yn eich paratoi ar gyfer gweithio ar lefel goruchwylio, bydd rhaid i chi weithio gyda phlant ifanc mewn lleoliad perthnasol.

## What help and support will I receive during the course?

Your tutor will be able to offer advice and support and let you know which books and resources will be of help, as well as pointing you to other agencies and organisations that can provide useful information.

## How much will it cost me?

CACHE does not set the candidate fee for this qualification. You will need to get in touch with your local college or chosen Centre to find this out.

You may well be entitled to a grant to support your learning – your chosen Centre or the Mudiad Ysgolion Meithrin Development Officer will be able to give you information about this.

## How can I find out if there's a course near where I live?

To find out about courses in your area, please contact CACHE on 01727 818616, Mudiad Ysgolion Meithrin on 029 2043 6800,or your local college/adult education service.


**COUNCIL FOR AWARDS IN CHILDREN'S CARE AND EDUCATION**
Beaufort House, 23 Grosvenor Road, St Albans, Hertfordshire, AL1 3AW
Tel: 01727 818616 Fax: 01727 818618
Reg. Charity Number 1036232 Reg. Company Number 2887166

**THE NATIONAL ASSOCIATION OF WELSH-MEDIUM PLAYGROUPS**
145 Albany Road, Cardiff, CF24 3NT
Tel: 029 2043 6800 Fax: 029 2043 6801
Reg. Charity Number 10322320 Company Limited by Guarantee 2164058 Registered in Wales


## Pa help a chefnogaeth fydd ar gael i mi yn ystod y cwrs?

Bydd eich tiwtor yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth ac yn rhoi gwybod i chi pa lyfrau ac adnoddau fydd o gyworth. Bydd hefyd yn eich cyfeirio at asiantaethau a sefydliadau eraill a all gynnig gwybodaeth ddefnyddiol.

## Faint fydd hyn yn costio i mi?

Nid CACHE sy'n gosod ffi'r ymgeisydd ar gyfer y cymhwyster hwn.  Bydd yn rhaid i chi ddod i gysylltiad â'ch coleg lleol neu â'r Ganolfan rydych chi wedi'i dewis.

Mae'n bosibl y gallwch gael grant i gefnogi eich dysgu – bydd y Ganolfan rydych chi wedi'i dewis neu Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin yn gallu rhoi'r wybodaeth am hyn i chi.

## Sut alla i gael gwybod a oes cwrs yn agos i'm cartref?

I gael gwybodaeth am gyrsiau yn eich ardal, gallwch gysylltu â CACHE ar 01727 818616, Mudiad Ysgolion Meithrin ar 029 2043 6800, neu eich coleg/gwasanaeth addysg i oedolion lleol.


**COUNCIL FOR AWARDS IN CHILDREN'S CARE AND EDUCATION**
Beaufort House, 23 Grosvenor Road, St Albans, Hertfordshire, AL1 3AW
Tel: 01727 818616 Fax: 01727 818618
Reg. Charity Number 1036232 Reg. Company Number 2887166

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
145 Ffordd Albany, Caerdydd, CF24 3NT
Ffôn: 029 2043 6800 Ffacs: 029 2043 6801
Rhif Cofrestru'r Elusen 10322320 Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 2164058 Cofrestrwyd yng Nghymru